# 2018/19

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# CYNLLUN CYFUNOL AR GYFER GWELLA A LLESIANT

DRAFT

**CYNNWYS**


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Y ddeddfwriaeth gymwys | 3 |
| Nodau llesiant Cymru | 4 |
| Beth sy’n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ei wneud o dan ddeddf LlCD | 5 |
| Sut mae’n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru weithredu | 6 |
| Datganiad llesiant | 7 |
| Cysylltu â’r nodau llesiant | 8 |
| Amcan Gwella a Llesiant A | 11 |
| Amcan Gwella a Llesiant B | 14 |
| Atodiad | 18 |
| A: Nodau Llesiant Cymru | 18 |
| B: Cyfraniadau ariannol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru | 19 |
| Manylion cyswllt | 20 |


DRAFT

## CYFLWYNIAD

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyhoeddi Cynlluniau blynyddol ar gyfer Lleihau Risg a Gwella ers llawer o flynyddoedd, a hynny'n unol â'r ddeddfwriaeth a'r cyfarwyddyd statudol. Yn dilyn dyfodiad deddfwriaeth newydd[1], dyma gyhoeddi ein hail Gynllun ar gyfer Gwella a Llesiant.

Yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar gynllunio'r ychydig flynyddoedd nesaf ar gyfer ein sefydliad, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod droi ei olygon ymhellach i'r dyfodol ac ystyried beth y gall ei wneud nawr i ddechrau gwella bywydau pobl a fydd yn byw yng Ngogledd Cymru yn yr 2020au, yr 2030au a'r 2040au. Dyma gyfle i'r gwasanaethau cyhoeddus feddwl am y tymor hir a gweithio gyda'i gilydd yn fwy effeithlon i ddelio â'r materion cymhleth sy'n effeithio ar fywydau pobl ond na ellir eu datrys gan un sefydliad yn unig drwy gynlluniau byrdymor.

Mae cynnwys y Cynllun wedi newid, ond mae'r terfyn amser statudol ar gyfer ei gyhoeddi[2] yn dal yr un fath, yn ogystal â'r bwriad cyffredinol y tu ôl i'w gyhoeddi, sef esbonio'n gyhoeddus beth yw bwriadau'r Awdurdod, gwahodd sylwadau ac awgrymiadau, a darparu sail ar gyfer ein hadroddiadau cynnydd ym mis Hydref.

DRAFT



**Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yw gweithredu "*mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau*".**

[1] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
[2] Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2012 a pharagraff 10 o'r Cyfarwyddyd Statudol "Rhannu Pwrpas Rhannu Dyfodol" (SPSF2).

## Mesur Llywodraeth Leol 2009

Ers 2009, mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ddarostyngedig i Fesur Llywodraeth Leol 2009 sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo osod a chyhoeddi amcanion gwella. Fel "Awdurdod Gwella Cymreig" o dan y ddeddfwriaeth hon, rhaid i gynllun gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ddangos ei fod wedi gwella'r hyn a wnaiff mewn perthynas ag o leiaf un o'r saith agwedd ar wella, sef:

1. effeithiolrwydd strategol;
2. ansawdd gwasanaethau;
3. argaeledd gwasanaethau;
4. tegwch;
5. cynaliadwyedd;
6. effeithlonrwydd; ac
7. arloesi.

Nid oes raid i'r amcanion newid o'r naill flwyddyn i'r llall, nac ychwaith fod modd eu cyflawni o fewn un flwyddyn.


## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf newydd hon yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol cenedlaethau o bobl yn y dyfodol yng Nghymru. Rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru, fel un o'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf, gyflawni "datblygu cynaliadwy"[3] er mwyn helpu i achosi'r gwelliant hwnnw i'r boblogaeth yng Nghymru yn y dyfodol.

[3] *Datblygu cynaliadwy* yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r *egwyddor datblygu cynaliadwy* yn golygu gweithredu "mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

## NODAU LLESIANT CYMRU

Mae'r Ddeddf yn rhestru saith o nodau llesiant ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd. Bwriad y nodau hyn yw hybu synnwyr o bwrpas cyffredin, ac felly annog pobl a sefydliadau i weithio gyda'i gilydd i helpu i gyflawni'r nodau er lles cenedlaethau o bobl yn y dyfodol. Ceir disgrifiad manylach o'r nodau yn atodiad A tua diwedd y Cynllun hwn.



## BETH SY'N OFYNNOL I AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU EI WNEUD O DAN DDEDDF LlCD

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru osod a chyhoeddi amcanion llesiant. Mae'r amcanion hirdymor hyn yn newidiadau y mae'r Awdurdod eisiau eu gweld yng Ngogledd Cymru er mwyn cyfrannu at wella llesiant yn lleol a symud Cymru'n nes at gyflawni ei nodau llesiant hi. Ar ôl nodi'r amcanion hirdymor hyn, mae dyletswydd ar yr Awdurdod i gymryd pob cam rhesymol i fynd ynglŷn â nhw ac i adrodd yn gyhoeddus ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol ynghylch y cynnydd a wnaed ganddo.

Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymwneud fel aelod gweithredol o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r byrddau statudol hyn yn dod â sefydliadau perthnasol at ei gilydd i gynllunio a chydweithio ar wella rhagolygon cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol cenedlaethau o bobl yn eu hardal yn y dyfodol. Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn aelod o'r pedwar bwrdd yng Ngogledd Cymru, sef Wrecsam; Sir y Fflint; Conwy a Sir Ddinbych; ac Ynys Môn a Gwynedd.

### Dyletswydd llesiant

Rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyflawni datblygu cynaliadwy, a thrwy hynny, rhaid iddo osod a chyhoeddi amcanion llesiant gyda'r nod o wneud y mwyaf o'i gyfraniad i gyflawni pob un o'r nodau llesiant cenedlaethol, a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cenedlaethol a'r pum ffordd o weithio.

DRAFT

Yn gryno, rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wneud y canlynol:

- Gosod a chyhoeddi amcanion llesiant;
- Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny;
- Cyhoeddi datganiad ynglŷn â'i amcanion llesiant;
- Cyhoeddi adroddiad cynnydd yn flynyddol;
- Cyhoeddi ymateb i unrhyw argymhellion a wneir gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru.

## SUT MAE'N RHAID I AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU WEITHREDU

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ganolbwyntio ar wneud yn siŵr nad yw'r pethau a wnaiff heddiw yn amharu ar fywydau pobl a fydd yn byw yma yn blynyddoedd i ddod[4].

Rhaid i'r Awdurdod fabwysiadu ffyrdd arbennig o feddwl a gweithredu er mwyn helpu i barhau i ganolbwyntio ar ddiogelu llesiant cenedlaethau o bobl yn y dyfodol.

Mae'r "**pum ffordd o weithio**" a ddiffinnir yn y Ddeddf yn golygu:

- Edrych ar bethau yn yr **hirdymor** fel nad yw'r hyn sy'n digwydd nawr yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- **Atal** problemau rhag digwydd neu rhag gwaethygu.
- Cael **dull integredig**, gan ystyried sut y gallai ei amcanion llesiant ei hun effeithio ar ei gilydd ac ar gyflawni'r nodau llesiant ar gyfer Cymru.
- Cofio'r amrywiaeth gyfoethog o bobl sydd yna yng Ngogledd Cymru, a'u hannog i **gymryd rhan** yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Gweithio **ar y cyd** ag eraill i helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion, ac fel arall, i helpu eraill i gyflawni eu rhai hwy.

DRAFT

[4] Yn ôl y Ddeddf, rhaid i gorff cyhoeddus "*weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau*". Yr enw ar hyn yw'r "**egwyddor datblygu cynaliadwy**".



# DATGANIAD LLESIANT



**Dyma amcanion llesiant hirdymor ATAGC:**

A. Cynorthwyo pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi a bod yn ddiogel os bydd tanau'n digwydd;

B. Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, ac hynny'n deg ac ar sail risg.



**Er mwyn cyflawni'r amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy[4], mae ATAGC yn cynnig cymryd camau i wneud y canlynol:**

1. Cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau ataliol gyda'r nod o helpu i gadw pobl a chymunedau'n ddiogel rhag tanau damweiniol mewn cartrefi;

2. Diogelu cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod drwy fabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfraniadau ariannol a gwneud gostyngiadau i'r gwasanaeth;

3. Parhau i archwilio cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau integredig i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.

DRAFT



**Mae ATAGC wedi gosod ei amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy wneud y canlynol:**

-  Mae wedi ystyried yr heriau hirdymor sy'n wynebu Gogledd Cymru, sy'n cynnwys y rhagamcan o newidiadau demograffig i boblogaeth gynyddol sy'n heneiddio, a rhagweld cyfyngiadau ariannol sy'n effeithio ar wasanaethau cyhoeddus.
-  Mae wedi cadw'r gwaith ataliol yn ganolog, gan gydnabod bod atal tanau a sefyllfaoedd niweidiol eraill rhag digwydd yn gwneud mwy o synnwyr nag ymateb yn unig.
-  Mae wedi dilyn dull integredig, ac wedi ystyried strategaethau sefydliadau eraill (e.e. gwasanaethau iechyd cymunedol) yn ogystal â'i rai ei hun.
-  Mae wedi parhau i feithrin perthnasoedd gwaith cynhyrchiol ag amrywiaeth o sefydliadau eraill, gan gynllunio a gweithredu ar wahanol lefelau drwy amrywiol fforymau, gan gynnwys y byrddau gwasanaethau cyhoeddus.
- Mae wedi ymgynghori'n eang ac wedi ceisio barn y cyhoedd yn gyffredinol a chynrychiolwyr grwpiau penodol wrth benderfynu ar ei amcanion.

Bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn monitro ei gynnydd o ran cyflawni ei amcanion llesiant drwy drefniadau rheolaethol o ddydd i ddydd yn y Gwasanaeth ac adroddiadau rheolaidd i'r Awdurdod.

DRAFT

**Bydd ATAGC yn cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau, a bydd yn sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth Gogledd Cymru.**

Mae'r Gwasanaeth yn ymwneud bob dydd ag amrywiaeth eang o bobl a fyddai â diddordeb yn gweld nodau llesiant Cymru yn cael eu cyflawni.

Drwy atgyfeiriadau gan sefydliadau sy'n bartneriaid inni, mae'r Gwasanaeth yn cwrdd â phobl y mae eu hamgylchiadau'n golygu eu bod yn fwy agored i danau. Drwy weithgareddau ataliol penodol (e.e. archwiliad diogel ac iach, camau atal llosgi bwriadol ac ymweld ag ysgolion), cyrsiau (e.e. Y Ffenics) a rhwydweithiau proffesiynol a chyfarfodydd, mae'r Gwasanaeth yn cael sgyrsiau cyson â phobl y mae eu barn a'u profiad yn helpu i siapio'r gwasanaethau a ddarparwn.

Mae'r Gwasanaeth hefyd yn ymwneud yn gyson â'r gymuned fusnes yn ystod awditiau o safleoedd annomestig – e.e. pobl sy'n rhedeg busnesau teuluol bach, cyflogwyr gweithluoedd mawr, pobl sy'n rhedeg gwestai, perchnogion bwytai, rheolwyr ysbytai ac athrawon.

Ceir gwybodaeth am yr ymateb i ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod yn 2017 drwy wneud cais amdano neu oddi ar wefan yr Awdurdod[5].

[5] http://www.nwales-fireservice.org.uk/media/337912/7-ymateb-ir-ymgynghoriad-cyhoeddus.pdf

**Drwy gyflawni ei amcanion llesiant, bydd ATAGC yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant ar gyfer Cymru drwy wneud Cymru'n:**

- **llewyrchus** o ganlyniad i leihau effaith ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol tanau. Bydd ardaloedd lleol yn fwy galluog i ffynnu'n economaidd a denu mewnfuddsoddiadau, a bydd adnoddau'r gwasanaethau cyhoeddus yn mynd ymhellach ac yn cyflawni mwy nag a fyddai modd ei fforddio fel arall;
- **cydnerth** oherwydd bod gwasanaethau cyhoeddus, sydd wedi'u cynllunio'n dda ac sy'n gynaliadwy, yn dal ar gael, ond yn bwysicach oherwydd bydd gan bobl a chymunedau fwy a mwy o wybodaeth a hyder i ddatblygu eu cydnerthedd eu hunain;
- **iachach** oherwydd bydd llai o bobl yn dioddef niwed y mae modd ei osgoi; bydd yr amgylchedd yn lanach, a bydd adnoddau naturiol a thirweddau'n cael eu diogelu ar gyfer gweithgareddau awyr agored;
- **mwy cyfartal** oherwydd bydd y sylw'n cael ei anelu at gefnogi a dylanwadu ar y bobl hynny y mae eu iechyd, eu nodweddion personol a/neu eu ffordd o fyw ar wahanol adegau yn eu bywydau yn eu rhoi mewn mwy o berygl;
- gwlad o **gymunedau cydlynus** oherwydd mae cymunedau diogel, cydnerth a hyderus yn fwy tebygol o gynnal synnwyr o bwrpas cyffredin, ac o rannu gwasanaethau a'u hadnoddau'n fwy teg;
- gwlad â **diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** oherwydd mae cymunedau llewyrchus, cydnerth mewn lle gwell i ddatblygu diwylliant adeiladol a chadarnhaol a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol, a hefyd oherwydd mae'r Awdurdod wedi sefydlu ymrwymiad i'r Gymraeg sy'n golygu bod unrhyw un sy'n dod i gysylltiad â'r Gwasanaeth yn gallu gwneud hynny drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg fel y maent yn dewis;
- yn wlad **gyfrifol ar lefel fyd-eang** oherwydd yr elfen o amddiffyn amgylcheddol sy'n gysylltiedig ag atal tanau mewn cartrefi, a hefyd oherwydd yr ymrwymiad i gynaliadwyedd drwy stiwardio adnoddau ariannol yr Awdurdod.

DRAFT



**Amcan Gwella a Llesiant A:** Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi a bod yn ddiogel os bydd tanau'n digwydd.

**Sut mae'r amcan hon yn cyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol a llesiant poblogaeth Gogledd Cymru.**

| Nodau llesiant | Agweddau ar lesiant | | | | | | Esboniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llewyrchus | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Heblaw am yr effaith emosiynol a'r golled bersonol sy'n gysylltiedig â thanau yn y cartref, mae yna effaith economaidd, e.e. cost atgyweirio, premiwm yswiriant uwch a cholli amser gwaith; cost ymateb brys, gofal meddygol, ail-gartrefu a gofal maeth; yr effaith ar brisiau eiddo a pha mor atyniadol yw'r ardal i sefydlu busnes yno. |
| | Cymdeithasol | | | | | | |
| | Amgylcheddol | | | | | | |
| | Diwylliannol | | | | | | |
| Cydnerth | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bydd unigolion a chymunedau sy'n gwybod sut i atal tanau ac aros yn ddiogel pan fydd tanau'n digwydd yn fwy cydnerth yn economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Gall gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol sy'n gweithio gyda'i gilydd osgoi dyblygiadau ac aneffeithlonrwydd a darparu gwasanaeth o ansawdd gwell pan fo angen. Gellir cadw arian cyhoeddus ar gyfer y pethau na ellid eu hosgoi. |
| | Cymdeithasol | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| | Amgylcheddol | | | | | | |
| | Diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Iachach | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Gall hyd yn oed anafiadau corfforol bychain fod yn drawmatig pan fo rhywun yn cael tân yn eu cartref, ond gall anafiadau difrifol neu farwolaeth ffrind neu aelod o'r teulu gael canlyniadau pellgyrhaeddol i iechyd corfforol a meddyliol.<br>Mae effaith lygrol tanau yn cyfrannu at amgylchedd llai iach, sydd yn ei dro yn rhwystro pobl rhag gwneud gweithgareddau awyr agored. |
| | Cymdeithasol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Amgylcheddol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Mwy cyfartal | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Cydnabyddir bod cysylltiad rhwng bod yn agored i dân ac amddifadedd cymdeithasol, anabledd ac oedran. Mae targedu gwaith ataliol yn ceisio ail-unioni'r cydbwysedd ac yn helpu i wrthbwyso effeithiau'r nodweddion arbennig hynny. |
| | Cymdeithasol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Amgylcheddol | | | | | | |
| | Diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Gwlad o gymunedau cydlynus | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Mae cymdogaethau sy'n rhydd o danau damweiniol mewn cartrefi yn cyfrannu at gymunedau deniadol, hyfyw, diogel â chysylltiadau da sydd â gwell siawns o gael synnwyr o bwrpas cyffredin, ac o rannu gwasanaethau a'u hadnoddau'n fwy teg. |
| | Cymdeithasol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Amgylcheddol | | | | | | |
| | Diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Gwlad â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Economaidd | | | | | | Mae cymunedau sy'n rhydd o danau damweiniol mewn cartrefi yn fwy llewyrchus, felly maent yn fwy cydnerth ac mewn sefyllfa well i fod yn gallu datblygu diwylliant adeiladol a chadarnhaol sy'n cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol. |
| | Cymdeithasol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Amgylcheddol | | | | | | |
| | Diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Cyfrifol ar lefel fyd-eang | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Mae atal tanau damweiniol mewn cartrefi yn cyfrannu at gyflenwadau dŵr ac aer glân. |
| | Cymdeithasol | | | | | | |
| | Amgylcheddol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Diwylliannol | | | | | | |

**Rhesymeg**

Gartref yw'r lle mae pobl yn fwyaf tebygol o gael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân, ac mae hyn yn digwydd er eu bod yn gyfarwydd â chynllun yr adeilad ac fel arfer maent yn agos at o leiaf un llwybr dianc.

Yn ôl ein dadansoddiadau o anafusion tân blaenorol, mae nifer o ffactorau'n gallu rhoi pobl mewn mwy o berygl o danau damweiniol yn y cartref. Ymysg y ffactorau hyn mae:

- eu hoedran (plant ifanc ac oedolion hŷn);
- anabledd neu gyflwr meddygol cyfyngol;
- bod ar eu pen eu hunain ar adeg y tân;
- alcohol a/neu gyffuriau yn effeithio arnynt;
- byw mewn llety ar rent;
- dim larwm mwg yn gweithio ar y safle;
- hanes o gael gwared yn ddiofal ar ddeunydd sydd wedi cynnau;
- byw mewn amddifadedd cymdeithasol.

Po fwyaf o ffactorau cyfrannol sy'n gysylltiedig â rhywun, y mwyaf o berygl y bydd yn dioddef tân yn y cartref.

Mae proffil demograffig Gogledd Cymru yn y dyfodol yn dangos poblogaeth sy'n heneiddio. Yn ôl y rhagamcanion a gyhoeddwyd ar gyfer yr ardal, bydd cynnydd mawr yn nifer y bobl 75 oed a throsodd a bydd miloedd yn fwy o bobl yn byw ar eu pen eu hunain dros yr ugain mlynedd nesaf. Mae'r Awdurdod yn credu bod gallu dylanwadu ar ymddygiadau, er mwyn eu harfogi â'r wybodaeth a'r penderfynoldeb i'w cadw eu hunain yn ddiogel ac yn iach am fwy o amser ac er mwyn gwrthbwyso effeithiau'r ffactorau cyfrannol, yn gwneud synnwyr da iawn.



**Cam tuag at gyflawni'r amcan llesiant**

Y cam y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnig ei gymryd tuag at gyflawni amcan A yw cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o waith ataliol gyda'r nod o helpu i gadw pobl a chymunedau yn ddiogel rhag tanau damweiniol mewn cartrefi.



**Camau gweithredu tuag at gyflawni'r amcan llesiant**

Yn ystod 2018/19, bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn:

- Ehangu'r Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref a gynhelir ar hyn o bryd I gynnwys negeseuon ychwanegol am ddiogelwch, tra hefyd yn cynnal safon y gwaith ac yn rhoi enw newydd arnynt, sef Archwiliadau Diogel ac Iach.
- Cynnal 20,000 o Archwiliadau Diogel ac Iach, gydag o leiaf 25% o'r rheini i gartrefi y mae asiantaeth arall wedi eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth.
- Parhau i ddatblygu Strategaeth Diogelwch Tân sy'n ymgorffori dulliau gwerthuso cadarn I bennu beth yw effaith a pha mor effeithiol yw'r negeseuon a'r ymgyrchoedd diogelwch presennol.
- Drwy ddadansoddi patrymau digwyddiadau blaenorol, canfod a cheisio gostwng nifer yr achosion a ragwelir o gategorïau penodol o danau.
- Datblygu rhagor ar yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at ba mor agored yw unigolyn i danau mewn anheddau, a defnyddio hyn I ddarparu negeseuon amserol wedi'u targedu er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r risgiau a'r canlyniadau ac I geisio dylanwadu a newid ymddygiad.
- Parhau i weithio gyda sefydliadau sy'n bartneriaid i ni a meithrin partneriaiethau newydd pan fo'n briodol.
- Sicrhau bod y cytundebau rhannu gwybodaeth sy'n bodoli eisoes yn parhau'n gyfoes, a cheisio sefydlu cytundebau newydd pan fo'n briodol.

**Amcan Gwella a Llesiant B:** Hwyluso gwasanaethau tân ac achub integredig sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac wedi'u hintegreiddo'n well fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle mae eu hangen, a hynny'n deg ac ar sail risg.

| Nodau llesiant | Agweddau ar lesiant | | | | | | Esboniad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llewyrchus | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Mae atal tanau ac ymateb yn gyflym i argyfyngau pan fyddant yn digwydd yn helpu i osgoi neu leihau'r gost ddynol, colledion yswiriedig ac anyswiriedig, cost atgyweirio a cholli cynhyrchiant, a gwneud ardal yn llai atyniadol i fewnfuddsoddiadau. |
| | Cymdeithasol | | | | | | |
| | Amgylcheddol | | | | | | |
| | Diwylliannol | | | | | | |
| Cydnerth | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Bydd rhesymoli costau'r Awdurdod ei hun a chanfod ffordd fantoledig o ariannu'r gwasanaeth dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn gymorth i gynnal gwasanaethau tân ac achub ar gyfer y dyfodol, gan wneud yr ardal yn fwy cydnerth i newidiadau demograffig a newidiadau eraill. Mae cynllunio gwasanaethau ar sail risg yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu dosbarthu yn y ffordd orau. |
| | Cymdeithasol | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| | Amgylcheddol | | | | | | |
| | Diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| Iachach | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Mae'r amcan hwn yn ceisio sicrhau'r gwasgariad gorau o adnoddau ariannol er mwyn darparu gwasanaethau tân ac achub i achub bywydau. Does dim amheuaeth y bydd yna heriau'n gysylltiedig â system o gyllidebu ar gyfer y tymor byr, ond mae cynllunio ariannol yn ceisio rhagweld a mynd i'r afael â phroblemau cyn iddynt ddigwydd, gan sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a pharhau i ddarparu gwasanaethau. |
| | Cymdeithasol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Amgylcheddol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Mwy cyfartal | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Mae cynllunio gwasanaethau fforddiadwy a chyfartal ar sail risg, a'u darparu pan a lle bo angen, yn berthnasol i bawb. |
| | Cymdeithasol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Amgylcheddol | | | | | | |
| | Diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Gwladol o gymunedau cydlynus | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Mae osgoi effeithiau tanau ac argyfyngau eraill yn cyfrannu at gymunedau mwy atyniadol, bywiog a diogel. |
| | Cymdeithasol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Amgylcheddol | | | | | | |
| | Diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Gwlad â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Economaidd | | | | | | Os oes gan gymunedau fynediad at wasanaethau effeithiol sy'n atal ac yn ymateb mewn argyfwng, byddant yn gallu canolbwyntio fwy ar gynnal y Gymraeg, creu diwylliant cadarnhaol ac amddiffyn ei threftadaeth. |
| | Cymdeithasol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Amgylcheddol | | | | | | |
| | Diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| Cyfrifol ar lefel fyd-eang | Economaidd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | Mae gwasanaethau tân a achub o ansawdd uchel yn cyfrannu at amgylchedd glanach a gwell, ac yn gwarchod adnoddau naturiol. |
| | Cymdeithasol | | | | | | |
| | Amgylcheddol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | Diwylliannol | | | | | | |

**Rhesymeg**

O ystyried bod ansicrwydd ariannol yn y cefndir,[6] a bod cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau ymhob rhan o'r sector cyhoeddus, does dim amheuaeth y bydd yr Awdurdod yn wynebu heriau o ran gallu cynnal ei wasanaethau dros y degawdau i ddod.

Er bod byw'n hirach yn rhywbeth i'w groesawu, gall y rhagamcan fod y boblogaeth yn heneiddio arwain at gael llai o bobl o oedran gweithio i gefnogi'r rhai sydd o oedran pensiwn. Yn ôl ffigyrau ar gyfer y Deyrnas Unedig a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol[7], mae nifer y bobl o oedran pensiwn yn codi o amcangyfrif o 308 am bob 1,000 o bobl o oedran gweithio yn 2016, i 365 am bob 1,000 o bobl o oedran gweithio yn 2037.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dweud hefyd fod *"poblogaeth fwy o faint yn cynyddu maint a chapasiti'r gweithlu i gynhyrchu, ond mae hefyd yn cynyddu'r pwysau a'r galw am wasanaethau fel addysg, gofal iechyd a thai".*

Dosbarthiad oedran poblogaeth y Deyrnas Unedig, 1975 i 2045 (rhagamcan)

| Bl. | Poblogaeth y D.U. | 0 i 15 oed (%) | 16 i 64 oed (%) | 65 oed a throsodd (%) |
|---|---|---|---|---|
| 1975 | 56,226,000 | 24.9 | 61.0 | 14.1 |
| 1985 | 56,554,000 | 20.7 | 64.1 | 15.2 |
| 1995 | 58,025,000 | 20.7 | 63.4 | 15.8 |
| 2005 | 60,413,000 | 19.3 | 64.7 | 15.9 |
| 2015 | 65,110,000 | 18.8 | 63.3 | 17.8 |
| 2025 | 69,444,000 | 18.9 | 60.9 | 20.2 |
| 2035 | 73,044,000 | 18.1 | 58.3 | 23.6 |
| 2045 | 76,055,000 | 17.7 | 57.8 | 24.6 |

Ffynhonnell : Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Felly, mae'r pwysau ar wasanaethau tân ac achub yn debygol o ddod o sawl cyfeiriad gwahanol, gan gynnwys y gallu i recriwtio a chadw digon o ddiffoddwyr tân gweithredol sy'n cyrraedd y safonau ffitrwydd angenrheidiol, a chael digon o arian i dalu am ddarparu gwasanaethau tân ac achub ar adeg o fwy o alw am amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus.

[6] Gweler (enghreifftiau) : "*Cydnerthedd ariannol awdurdodau lleol yng Nghymru 2015-16*" Archwilydd Cyffredinol Cymru. https://www.wao.gov.uk/cy/system/files/publications/445A2016-Financial-resilience-cym.pdf
"*Future pressures on Welsh public services*", Mark Jeffs, Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2025. http://www.walespublicservices2025.org.uk/files/2016/03/Mark-Jeffs-WPS2025-Summary-Report1.pdf
"*Welsh budgetary trade–offs to 2019–20*", D. Phillips and P. Simpson, The Institute for Fiscal Studies, Sept. 2016. https://www.ifs.org.uk/uploads/publications/docs/IFS%20report%20R120.pdf

[7] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/articles/overviewoftheukpopulation/mar2017.



**Camau tuag at gyflawni'r amcan llesiant**

Dyma'r camau y mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cynnig eu cymryd tuag at gyflawni amcan B:

1. Diogelu cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod drwy fabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfraniadau ariannol a gwneud gostyngiadau i'r gwasanaeth;
2. Parhau i archwilio cyfleoedd i weithio gyda sefydliadau eraill i gynnig amrywiaeth eang o wasanaethau integredig i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru.



**Camau gweithredu tuag at gyflawni'r amcan llesiant**

Er mwyn gweithio tuag at gyflawni amcan hirdymor B yn ystod 2018/19, bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn gwneud y canlynol:

- Darparu gwasanaethau o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, sef £33,492,877, wedi'i thanategu gan £646,701 o'r cronfeydd wrth gefn ynghyd ag arbediad o £366,000 a gafwyd drwy newid polisi yn ymwneud â'r ddarpariaeth isafswm refeniw.

Yn 2017/18, cytunodd yr Awdurdod Tân ac Achub (ATA) blaenorol i gael cynnydd o £1.28 miliwn yn y cyfraniadau ariannol gan yr Awdurdodau cyfansoddol, sef cynnydd o 4%. Dyma'r cynnydd sylweddol cyntaf ers 2010, ond roedd hyn yn llai na'r hyn oedd ei angen i dalu'r costau cynyddol o ran cyflogau, prisiau a chyllid cyfalaf. Felly roedd angen tanategu cyllideb 2017-18 gyda £414,000 yn ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn. Rhoddir esboniad manylach o'r cyfraniadau ariannol yn atodiad B tua diwedd y Cynllun hwn.

Ar gyfer 2018/19, cafodd yr ATA wybodaeth eto i gynnig 'strategaeth gymysg' a oedd yn cynnwys cynyddu cyfraniadau'r awdurdodau cyfansoddol a'u tanategu o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn. Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2017, cytunodd yr ATA ar gynnydd o 1% yng nghyfraniadau'r awdurdodau lleol. Ond efallai y bydd angen talu pwysau costau annisgwyl drwy reoli cyllideb yr Awdurdod yn ofalus.

Mae hyn yn golygu y bydd heriau ariannol mwy fyth yn wynebu'r Awdurdod yn 2019/20. Bydd trafodaethau'r ATA yn gynnar yn 2018 yn canolbwyntio ar arbedion sylweddol y bydd angen ceisio eu cael yn 2019/20.

**Camau tuag at gyflawni'r amcan llesiant.**

- Ymgynghori â'r cyhoedd am y camau arfaethedig i'w cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant yn ystod 2019/20 a chytuno ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn honno ar sail y costau hysbys a'r rhai a ddisgwylir.

- Parhau'n agored i gyfleoedd[8] i staff amlsgiliau i weithio y tu hwnt i ffiniau sefydliadau i gynnig amrywiaeth ehangach o wasanaethau, yn enwedig rhai a fydd yn gwella canlyniadau iechyd, diogelwch a llesiant fel rhan o ddull 'diogel ac iach' sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

- Parhau i fonitro a gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd rhaglenni peilot sy'n cael eu cynnal mewn partneriaeth â sefydliadau eraill.

[8] Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru eisoes wedi gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ymateb i ddigwyddiadau meddygol sy'n bygwth bywydau (cyd-ymateb) ac i bobl fregus sydd wedi cael codwm gartref (Tîm Cymorth Cymunedol); a hefyd gyda Heddlu Gogledd Cymru pan fo adroddiadau fod pobl (yn enwedig pobl fregus) ar goll o gartref.

**Atodiad A**

**Nodau Llesiant Cymru**

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Cymru lewyrchus:** | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| 2. | **Cymru gydnerth:** | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| 3. | **Cymru iachach:** | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| 4. | **Cymru sy'n fwy cyfartal:** | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| 5. | **Cymru o gymunedau cydlynus:** | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| 6. | **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| 7. | **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

## Atodiad B

### Cyfraniadau ariannol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru[9]

| £ | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ynys Môn** | 3,216,231 | 3,198,669 | 3,200,523 | 3,190,812 | 3,330,579 | 3,356,175 |
| **Gwynedd** | 5,507,985 | 5,588,255 | 5,602,787 | 5,598,221 | 5,851,817 | 5,914,137 |
| **Conwy** | 5,198,570 | 5,283,704 | 5,289,891 | 5,277,177 | 5,539,433 | 5,589,830 |
| **Sir Ddinbych** | 4,593,630 | 4,342,155 | 4,360,740 | 4,363,962 | 4,524,683 | 4,568,797 |
| **Sir y Fflint** | 6,955,089 | 7,018,721 | 7,033,548 | 7,022,578 | 7,339,795 | 7,409,315 |
| **Wrecsam** | 6,300,506 | 6,340,507 | 6,398,354 | 6,433,093 | 6,574,970 | 6,654,624 |
| **CYFANSWM** | **31,772,011** | **31,772,011** | **31,885,843** | **31,885,843** | **33,161,277** | **33,492,877** |
| **Amcanion poblogaeth** | 691,986 | 694,038 | 695,549 | 697,122 | 698,715 | 700,310 |
| **Cost y pen o'r boblogaeth** | £46 | £46 | £46 | £46 | £47 | £48 |

DRAFT

[9] http://gov.wales/statistics-and-research/local-authority-population-projections/?lang=en;

## MANYLION CYSYLLTU

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad post: | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru<br>Pencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub<br>Ffordd Salesbury<br>Parc Busnes Llanelwy<br>Llanelwy<br>Sir Ddinbych<br>LL17 0JJ |
| Ffôn: | 01745 535250 |
| Gwefan: | www.gwastan-gogcymru.org.uk |

## SUT I GYFRANNU AT AMCANION GWELLA AR GYFER Y DYFODOL

Mae'r Awdurdod yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus bob blwyddyn, pryd y mae'n cyhoeddi ei amcanion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod ac yn gwahodd sylwadau gan bawb sydd â diddordeb yn yr hyn a wnaiff yr Awdurdod. Rhoddir ystyriaeth i bob sylw a ddaw i law cyn cyhoeddi'r cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae croeso i unrhyw un sy'n dymuno cyfrannu syniadau newydd ynglŷn ag amcanion gwella ar gyfer y dyfodol ysgrifennu at y Prif Swyddog Tân yn y cyfeiriad uchod.

DRAFT